Mae'r Cyngor yn dylunio'r gwasanaethau'n effeithiol i fodloni anghenion rhieni, ond ceir cyfleoedd pellach iddo ddeall eu barn yn well a gweithredu yn sgil y farn honno	8
Gall rhieni ddefnyddio'r gwasanaethau'n rhwydd, ond mae rhai rhwystrau'n bodoli	9
Mae'r rhieni'n fodlon iawn ar y cyfan ag ansawdd y gwasanaethau y maent yn eu defnyddio	11
Mae'r cyfathrebu rhwng y rhieni a staff lleoliadau Dechrau'n Deg yn dda, ond gallai'r Cyngor wneud mwy i ddefnyddio barn y rhieni mewn modd systematig i wella'r rhagleni	13

Atodiadau

Atodiad 1 – taflen a rannwyd ymhliith y rhieni a sgrinlun o'r cyfryngau cymdeithasol	16
Atodiad 2 – ffeithlun sy'n crynhoi'r prif ganfyddiadau ymhliith rhieni	18

Adroddiad cryno

Crynodeb

- 1 Yn 2017-18, cwblhaodd Swyddfa Archwilio Cymru waith i ddeall ‘safbwyt y defnyddiwr gwasanaeth’ ynghylch gwasanaeth cytunedig ym mhob Cyngor yng Nghymru. Dilynwyd yr un ymagwedd yn fras ym mhob cyngor. Yng Nghyngor Dinas Casnewydd (y Cyngor), cytunwyd y byddem yn cynnal adolygiad o brofiadau rhieni o raglenni iaith a Chwarae (laCh) ac Magu Plant y rhaglen Dechrau'n Deg yng Nhasnewydd.
- 2 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ('y Ddeddf') yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill i roi sylw i'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio sy'n diffinio'r egwyddor honno. Mae 'Cynnwys' yn un o'r pum ffordd o weithio a nodir yn y Ddeddf.
- 3 Rhaglen blynnyddoedd cynnar i blant dan bedair oed yw Dechrau'n Deg. Fe'i hariennir drwy grant gan Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cylid grant i gyngorau ddarparu'r rhaglen i deuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd a ddiffinnir yn ôl codau post. Yng Nhasnewydd, mae'r holl deuluoedd sydd yn byw yn yr ardaloedd a ganlyn yn gymwys i gymryd rhan yn y rhaglen Dechrau'n Deg.
 - Allt-yr-ynn, Alway, Betws, Dyffryn, Gaer, Llysgeri, Maesglas, Maendy, Malpas, Pillgwenlli, Ringland a Somerton
- 4 Mae'r rhaglen yn cynnwys pedair elfen:
 - Gofal plant rhan-amser o ansawdd i bob plentyn dwy a thair oed sydd yn byw yn yr ardaloedd Dechrau'n Deg dynodedig. Cynigir pum niwrnod o ofal yr wythnos am gyfnod o 39 wythnos.
 - Gwasanaeth Ymweliadau lechyd ychwanegol yn yr ardaloedd dynodedig.
 - Rhaglenni a chymorth rhianta
 - Rhaglen datblygu iaith gynnar
- 5 Mae'r rhaglen wedi'i seilio ar ymchwil sy'n dangos y bydd rhoi'r hawliau hyn i deuluoedd mewn ardaloedd difreintiedig yn cefnogi datblygiad plant, yn codi eu cyrhaeddiad addysgol, yn lleihau'r angen am gamau adferol yn ddiweddarach, ac felly yn y pen draw yn lleihau'r gyfran o bobl a chanddynt lefel isel iawn o sgiliau yn oedolion.
- 6 Amcanion byrdymor Dechrau'n Deg yw nodi ac ymateb i anghenion cynnar plant a sicrhau canlyniadau realistig i'r plentyn o ran ei ddatblygiad, sef datblygiad ieithyddol, gwybyddol, cymdeithasol, emosynol a chorfforol yn benodol.
- 7 Yng Nhasnewydd, bydd tîm Dechrau'n Deg canolog yn cydgysylltu'r rhaglen a gyflenwir mewn ystod o '**leoliadau**', gan gynnwys canolfannau Dechrau'n Deg a adeiladwyd i'r diben hwnnw, ysgolion, canolfannau cymuned a lleoliadau gofal plant preifat. Y Cyngor sy'n darparu 16 o'r 18 o leoliadau, a lleoliadau gofal plant preifat yw'r ddau leoliad arall.
- 8 Mae'r rhaglen yn cynnwys rhaglen laCh barhaus i helpu rhieni archwilio ffyrdd newydd o chwarae gyda'u plant, o wrando arnynt ac o siarad â hwy. Mae'r rhaglen laCh yn cyflwyno syniadau a gweithgareddau newydd i blant a rhieni y gellir eu defnyddio i wella sgiliau iaith a chyfathrebu plant. Bydd lleoliadau'n cynnal sesiynau laCh bob wythnos. Mae'r sesiynau'n rhoi cyfreithiol i rieni rannu syniadau â rhieni eraill a dysgu sgiliau newydd.

- 9 Mae rhaglen Dechrau'n Deg hefyd yn cynnwys y sesiynau Siaradwyr Bach i blant 7 i 18 mis, a sesiynau Plant Parablus i blant hŷn. Rhaglen deg wythnos o hyd i rieni a phlant yw Plant Parablus. Mae'n canolbwytio ar sgiliau canolbwytio a gwrando a sgiliau iaith cynnar.
- 10 Mae'r rhaglen Cysylltiadau Teuluol Magu Plant yn seiliedig ar ymchwil seicoleg a datblygiad plant. Y mae pedair prif cydran i'r rhaglen hon. Cyflwynir y rhain gan staff hyfforddedig i rieni ar ffurf rhaglen strwythuredig deg wythnos o hyd, gan gynnwys sesiynau sy'n trafod:
- Hunanymwybyddiaeth
 - Disgwyliadau priodol
 - Disgyblaeth gadarnhaol
 - Empathi
- 11 Dengys ymchwil^{1 2} fod y rhaglen wedi arwain at nifer o welliannau yn y berthynas rhwng rhieni a phlant a hefyd wedi cael effaith gadarnhaol ar rieni, o ran gwella canfyddiadau ynghyllch y gallu i ymdopi a hunaneffeithiolwydd a pherthnasoedd gwell rhwng aelodau o'r teulu.
- 12 Mae'r Cyngor yn mynnu bod gan yr holl leoliadau drefniadau i gasglu safbwytiau rhieni drwy ddefnyddio arolygon ysgrifenedig byr. Yn 2017-18, cwlblhawyd yr arolygon hyn gan oddeutu 90% o'r rhieni a gymerodd ran. Mae'r arolygon yn gyfle i rieni nodi a ydynt yn fodlon neu'n anfodlon ag agweddu ar y gwasanaeth a ddarparwyd.
- 13 Mae gan y Cyngor chwe egwyddor dylunio sefydliadol sydd yn llywio'r ffordd y mae'n gweithio. Dyma un o'r egwyddorion hynny: 'Yng Nghasnewydd, mae dinasyddion yn bartneriaid cyfartal ac yn chwarae rhan yn y gwaith o greu a chefnogi cymunedau cryf, ac yn helpu i ddylunio gwasanaethau cyhoeddus lleol.
- 14 Cynhaliom grwpiau ffocws â rhieni a oedd yn cymryd rhan yn y sesiynau Magu Plant ac/neu laCh mewn 6 lleoliad rhwng 12 Mehefin a 14 Mehefin 2018. Cymerodd cyfanswm o 39 o rieni ran yn ein grwpiau ffocws. Fodd bynnag, oherwydd cwmpas y prosiect ni fu modd inni gael dealltwriaeth gynhwysfawr o farn yr holl rieni cymwys. Nid oeddem yn gallu siarad â rhieni cymwys nad ydynt ar hyn o bryd yn manteisio ar eu hawl i gymryd rhan yn y rhaglen Dechrau'n Deg.
- 15 Wythnos cyn cynnal y grŵp ffocws yn eu lleoliad, rhannwyd taflenni gwybodaeth agraftedig (taflenni) ymhliith yr holl rieni a oedd yn cymryd rhan yn y sesiynau (**Atodiad 1**). Defnyddiwyd cyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru ar Facebook a Twitter hefyd i hysbysu rhieni ynghyllch y grwpiau ffocws. Cafodd ein hysbysiadau hefyd eu hailbostio gan dim Dechrau'n Deg Casnewydd ar eu tudalennau Facebook a Twitter hwythau.
- 16 Ar ôl cynnal ein grwpiau ffocws â'r rhieni, cynhaliwyd cyfarfod rhngom â'r rheolwyr rhianta a Dechrau'n Deg o fewn y Cyngor. Buom yn trafod y safbwytiau a fynegwyd gan

¹ Ghate, D., (2015) **The Family Links Nurturing Programme – Findings and recommendations from a strategic review and development project**

² Villadsen, A., (2015) **Parenting Self-Efficacy before and after the Family Links 10-Week Nurturing Programme for Parents**

rieni yn ystod y grwpiau ffocws. Buom hefyd yn cyfarfod â'r Pennaeth Adfywio Cymunedol a'r Aelod Cabinet ar gyfer Cymunedau ac Adnoddau. Roedd gan y swyddogion a'r aelodau y buom yn cyfarfod â hwy oll yn awyddus iawn i glywed barn y rhieni, a derbyniwyd yr adborth mewn modd adeiladol.

- 17 Buom hefyd yn ystyried data perthnasol a adroddir gan y Cyngor wrth Lywodraeth Cymru ynghylch faint o rieni sy'n manteisio ar y rhaglen Dechrau'n Deg.
- 18 Ein casgliad yw **bod rhieni ar y cyfan yn fodlon iawn â rhaglenni laith a Chwarae a Magu Plant Dechrau'n Deg, ond y gallai'r Cyngor wneud defnydd mwy systematig o farn rhieni wrth gynllunio a gwella gwasanaethau**. Dywedwn hyn gan fod y rhieni y buom yn siarad â hwy wedi dweud wrthym:
- fod y Cyngor yn dylunio'r gwasanaethau'n effeithiol i fodloni anghenion rhieni, ond bod cyfleoedd pellach iddo ddeall eu barn yn well, ac i weithredu yn sgil hynny;
 - y gall rhieni ddefnyddio'r gwasanaethau'n rhwydd, ond mae rhai rhwystrau'n bodoli;
 - bod rhieni'n fodlon iawn ar y cyfan ag ansawdd y gwasanaethau y maent yn eu defnyddio; a
 - bod y cyfathrebu rhwng rhieni a staff yn y lleoliadau Dechrau'n Deg yn dda, ond y gallai'r Cyngor wneud mwy i ddefnyddio barn rhieni'n systematig er mwyn gwella'r rhaglenni.

Cynigion ar gyfer gwella

Dangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella

Cynigion ar gyfer gwella	
C1	Er mwyn cynyddu nifer y teuluoedd cymwys sy'n defnyddio ac yn elwa ar raglen Dechrau'n Deg, dylai'r Cyngor: <ul style="list-style-type: none">• sicrhau bod y polisi diffyg presenoldeb yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn gyson â pholisïau diogelu ehangach y Cyngor; a• sicrhau ei fod yn defnyddio'i ddadansoddiad o ddiffyg presenoldeb i sicrhau presenoldeb gwell.
C2	Er mwyn sicrhau y gall y Cyngor ddangos bod rhieni a phlant yn cael y budd a fwriedir o'r rhaglen Dechrau'n Deg, dylai'r Cyngor: <ul style="list-style-type: none">• nodi'n glir canlyniadau a fwriedir i rieni yn ogystal â phlant; a• monitro ac adrodd wrth aelodau etholedig ar y canlyniadau a gyflawnir gan rieni yn ogystal â phlant.

Cynigion ar gyfer gwella

C3 Er mwyn sicrhau dealltwriaeth fwy effeithiol o farn rhieni, dylai'r Cyngor:

- adolygu ei arolygon rhieni er mwyn sicrhau bod yr un wybodaeth yn cael ei chasglu o'r holl leoliadau. Dylai'r wybodaeth a gesglir fod yn berthnasol ac yn ddefnyddiol er mwyn helpu i sicrhau bod y rhaglen yn bodloni anghenion a dyheadau rhieni, er enghraifft, bodlonrwydd rhieni, amseriad a lleoliad y sesiynau.
- adolygu cwestiynau'r arolwg gyda rhieni sy'n siarad iaith arall ar wahân i Gymraeg neu Saesneg fel iaith gyntaf, er mwyn sicrhau bod yr holl rieni'n gallu rhoi adborth deallus.

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor yn dylunio'r gwasanaethau'n effeithiol i fodloni anghenion rhieni, ond ceir cyfleoedd pellach iddo ddeall eu barn yn well a gweithredu yn sgil y farn honno

- 19 Gofynnwyd i'r rhieni sut yr oedd y rhaglen yn ystyried eu hanghenion a'u barn. Rhoddodd rhieni sawl enghraift i ni lle ymatebodd y rhaglen yn effeithiol i'w barn, gan gynnwys:
- cynnig dewis o amseroedd ar gyfer sesiynau.
 - gosod man cysgodol i barcio pramiau yn y Ganolfan Seabreeze sy'n galluogi rhieni i aros yn y ganolfan a chymryd rhan yn y rhaglen, yn hytrach na cherdded adref.
 - darparu hyfforddiant i'r staff er mwyn hybu darpariaeth ddwyieithog, ar ôl i rieni mewn lleoliad Cymraeg ddweud na roddwyd yr un sylw i'r ddarpariaeth Gymraeg â'r Saesneg wrth hysbysebu.
 - newid y trefniadau gollwng yng Nghanolfan Gymuned Alway ar ôl i rieni godi pryderon.
 - rhoi cadarnhad ysgrifenedig ynghylch newid cewyn plant ym mhob lleoliad. Cyn hynny byddai'r rhieni'n cael gwybod ar lafar, ond nid oedd rhai rhieni'n derbyn yr wybodaeth honno'n gyson bob tro.
 - sicrhau bod rhieni sy'n symud allan o'r ardaloedd Dechrau'n Deg yn parhau i allu manteisio ar y rhaglen drwy'r gwasanaeth allgymorth, fu'n cefnogi 11 o deuluoedd yn 2017-18.
 - darparu dosbarth cerdded gyda bygi, er na fanteisiodd rhyw lawer ar y dosbarth hwnnw.
- 20 Er eu bod yn cydnabod bod y rhaglen yn rhoi ystyriaeth dda i farn ac anghenion rhieni, nododd y rhieni sawl agwedd hefyd lle gallai Dechrau'n Deg roi mwy o ystyriaeth i hynny, gan gynnwys:
- gwella'r trefniadau ar gyfer cyfeirio i ddarpariaeth addas yn y gwyliau haf pan na fydd rhaglen Dechrau'n Deg yn cael ei chynnal, gan fod rhieni'n teimlo bod eu plant yn elwa ar y drefn o fynychu'r sesiynau;
 - sicrhau bod yr holl adeiladau a'r lleoliadau lle cynhelir sesiynau Dechrau'n Deg yn saff a diogel. Yng Nghanolfan Gymuned Alway, dywedodd rhieni wrthym eu bod yn pryderu bod modd gadael drysau'r brif fynedfa ar agar, ac nad oedd hynny'n creu amgylchedd diogel i'r rhieni a'r plant wrth iddynt adael yr adeilad. Oherwydd trefn y ffyrdd y tu allan i Ganolfan Seabreeze, dywedodd rhieni wrthym nad yw hi bob amser yn hawdd croesi'r ffordd gan fod ceir wedi'u parcio, ac nad oedd unrhyw groesfannau yn agos at y ganolfan.
 - sicrhau bod rhaglenni'n cael eu cynnal mewn lleoliadau sy'n gyfleus ac yn hawdd i rieni gerdded/deithio iddynt. Tynnwyd sylw at hyn yng Nghanolfan Seabreeze, lle dywedodd rhieni wrthym nad oedd rhai rhieni eraill yn mynychu'r rhaglenni

mwyach gan fod yn rhaid iddynt gerdded yn bell i'w cyrraedd, a bod hynny'n eu hatal rhag gallu casglu eu plant eraill o'r ysgol.

- darparu trafnidiaeth i leoliadau os bydd y Cyngor yn eu hadleoli ymhellach i ffwrdd oddi wrth rieni.
 - adolygu cymhwysedd stadau newydd a adeiladwyd ers i Lywodraeth Cymru osod y meinu prawf cymhwysedd.
- 21 Buom yn trafod barn y rhieni â rheolwyr gwasanaeth y Cyngor a'r Pennaeth Adfywio Cymunedol a ddywedodd wrthym y byddai'r raglen yn cymryd y camau a ganlyn er mwyn ymateb i adborth y rhieni:
- ystyried sut y gallai lleoliadau lleol wneud trefniadau gwell i gysylltu rhieni â gweithgareddau yn yr ardal leol yn ystod y gwyliau.
 - adolygu cynllun a threfniadau diogelwch drws yng Nghanolfan Gymuned Alway, yn sgil pryderon y rhieni.
 - cysylltu â thîm Gwasanaethau Stryd y Cyngor er mwyn ystyried gwelliannau'n gysylltiedig â pharcio ceir a chroesfannau o amgylch canolfan Seabreeze.
 - archwilio'r posiblirwydd o ddarparu trafnidiaeth i rieni sy'n defnyddio lleoliad Tŷ Blossom ar hyn o bryd, pan gaiff y ddarpariaeth honno ei hadleoli yn nhymor yr hydref 2018. Mae'r Cyngor wedi cynnwys hyn wrth ymgynghori â'r rhieni ar y bwriad i adleoli.
 - fodd bynnag, ni all y Cyngor adolygu na diwygio'r meinu prawf cymhwysedd ar gyfer stadau newydd a adeiladwyd ar ôl i Lywodraeth Cymru sefydlu'r codau post cymwys.
- 22 Roedd cyfradd Cyngor ar gyfer y defnydd o ofal plant gyda'r seithfed isaf ledled Cymru yn 2017-18, sef 85%, ac efallai y gallai'r Cyngor ddysgu gan gynghorau eraill lle mae'r gyfradd honno'n uwch. Os nad yw'r rhieni'n manteisio ar eu hawl i dderbyn gofal plant, bydd lleoliadau'n cyfeirio hynny i sylw ymwelydd iechyd y teulu a fydd yn gwneud ymholiadau â'r teuluoedd. Mae'r Cyngor eisoes yn casglu gwybodaeth am y rhesymau pam nad yw rhieni'n manteisio ar eu hawl. Yn fuan yn 2018, sefydlodd y Cyngor grŵp Gorchwyl a Gorffen aml-asiantaeth, er mwyn edrych yn strategol ar ffyrdd i gynyddu cyfranogiad. Mae'r grŵp eisoes wedi canfod rhwystrau sydd yn atal rhai rhieni sy'n siarad Tsieceg rhag manteisio ar ofal plant. Y mae wedi gweithredu i sicrhau y bydd cymorth ar gael drwy'r llinell ieithoedd o hyn allan, i'r rhieni hynny allu manteisio ar ofal plant yn ogystal ag agweddau iechyd y rhaglen.

Gall rhieni ddefnyddio'r gwasanaethau'n rhwydd, ond mae rhai rhwystrau'n bodoli

- 23 Mae'r Cyngor yn cyflwyno ei raglen Dechrau'n Deg i'r holl rieni sy'n byw mewn codau post cymwys, fel y diffinnir gan Lywodraeth Cymru. Dengys data Llywodraeth Cymru ar raglenni Dechrau'n Deg ar draws y 22 o gynghorau yng Nghymru fod Cyngor Dinas

Casnewydd wedi darparu rhaglen Dechrau'n Deg i 2,808 o blant yn ystod 2017-18³. Cyfran y plant yng Nghasnewydd sydd wedi'u cynnwys yn llwyth gwaith ymwelydd iechyd Dechrau'n Deg yw'r uchaf ond un yng Nghymru, sef 32%, o gymharu â chymedr o 26% ar draws Cymru.

- 24 Cynigiodd y Cyngor elfen gofal plant Dechrau'n Deg i 86% o deuluoedd cymwys yn 2017-18. Dyma'r gyfradd isaf yng Nghymru, ac mae'r ffigur wedi gostwng o gymharu â'r 96% a gafwyd y llynedd. Mae nifer y rhieni sy'n manteisio ar gyrsiau rhianta ffurfiol wedi gostwng o 91% yn 2015-16 i 54% yn 2017-18, ac mae'r gyfradd a fanteisiodd ar y cyrsiau hyn dros y cyfnod hwnnw wedi gostwng o'r trydydd uchaf i'r pedwerydd isaf o blith 22 o gynghorau Cymru.
- 25 Ymagwedd y Cyngor yw trefnu bod rhieni'n mynd i'r lleoliad sydd agosaf i'w cartref. Mae'r rhaglen yn gweithredu dau leoliad cyfrwng Cymraeg, yn Nwyrain a Gorllewin y Ddinas, ac mae'r Cyngor yn anfon rhieni i'r lleoliad cyfrwng Cymraeg sydd agosaf i'w cartref. Ym mhob lleoliad, ar wahân i un, canfuom fod rhieni'n byw o fewn pellter cerdded agos. Dywedodd rhieni wrthym ei bod hi'n bwysig iddynt hwy a'u plant allu cerdded i'r canolfannau o fewn ychydig funudau.
- 26 Fodd bynnag, dywedodd rhieni yng Nghanolfan Seabreeze, canolfan a adeiladwyd i'r diben y symudwyd y ddarpariaeth iddi ym mis Medi 2017, eu bod nawr yn gorfol teithio ymhellach. Mae'r pellter ychwanegol hwn yn cynyddu'r amser teithio i rieni a phlant er mwyn cyrraedd a gadael y sesiynau. Roedd y Cyngor wedi nodi bod presenoldeb mewn sesiynau wedi gostwng yn nhymor yr hydref 2017. Fodd bynnag, er gwaethaf y pellter a'r amser ychwanegol er mwyn cyrraedd, roedd y rhieni hynny y buom ni yn siarad â hwy yn gwerthfawrogi effaith y sesiynau'n fawr, ac felly'n parhau i'w mynuchu. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod lleoliad newydd y ddarpariaeth ymhellach oddi wrth y gymuned y mae'n ei chefnogi; fodd bynnag, ar adeg y symud, ystyriwyd mai'r ganolfan oedd y ddarpariaeth orau a oedd ar gael i rieni a'u plant, gan ei bod yn gyfleuster wedi'i adeiladu'n bwrpasol ar gyfer Dechrau'n Deg.
- 27 Wrth ystyried symud darpariaeth i leoliad arall, dull presennol y Cyngor yw defnyddio meddalwedd mapio cyfrifiadurol i gyfrifo'r pellter cerdded i rieni cymwys. Dywedodd y rhieni y buom yn siarad â hwy o Ganolfan Seabreeze fod hyn yn golygu nad ydynt felly o bosib yn ystyried y gallai plant ifanc fod yn cerdded yn arafach, neu y gallai gymryd mwy o amser i gerdded gyda phram neu gadair wthio.
- 28 Nid Cymraeg na Saesneg oedd iaith gyntaf nifer o'r rhieni a ddaeth i'n grwpiau ffocws. Gan hynny, sicrhauodd y tîm canolog, fod rhywun a allai siarad iaith gyntaf/ieithoedd cyntaf y rhieni, gan gynnwys aelodau o'r tîm Dechrau'n Deg, yn bresennol yn y sesiynau fel bo modd i'r rhieni gymryd rhan yn llawn os oeddent yn dymuno.
- 29 Dywedodd y rhieni wrthym eu bod yn derbyn cymorth ieithyddol yn ystod y rhaglen magu plant, a'r sesiynau laCh, a bod y gefnogaeth honno'n eu helpu i gymryd rhan yn llawn yn y sesiynau hynny. Mae'r Cyngor yn holi ynghylch anghenion ieithyddol y rhieni


³ Llywodraeth Cymru (2018) Ymchwil ac Ystadegau Dechrau'n Deg - <https://gov.wales/statistics-and-research/flying-start/?lang=cy>

- ar ei ffurflenni cais ar gyfer y rhaglen, ac yn defnyddio'r wybodaeth honno i gynllunio i gefnogi rhieni nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg fel iaith gyntaf.
- 30 Mewn ymateb i anghenion ieithyddol rhieni, mae'r Cyngor wedi datblygu ei dîm o staff drwy reciriwtio staff a all siarad y prif ieithoedd cymunedol a siaredir yn ardaloedd Dechrau'n Deg. Bydd yr aelodau hynny o staff yn mynchy nifer o leoliadau ar draws y rhaglen i roi cymorth ieithyddol i rieni.
- 31 Sylwn, fodd bynnag, nad oes gan yr aelodau hyn o staff gymwysterau cyfieithu na dehongli proffesiynol, ond eu bod yn byw yn y gymuned ac mae'r rhieni felly yn 'ymddiried' ynddynt. Yn ogystal â bodloni anghenion ieithyddol y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg, dywedwyd wrthym fod y rhaglen wedi talu am ddehonglydd iaith arwyddion i riant byddar er mwyn galluogi'r rhiant hwnnw i gymryd rhan yn llawn yn y rhaglen.
- 32 Mae'r tîm canolog hefyd wedi trefnu i gyfieithu llyfryn y rhaglen Magu Plant i'r prif ieithoedd cymunedol a siaredir yng Nghasnewydd, sy'n cefnogi rhieni a allai ddymuno adolygu'r hyn y maent wedi'i ddysgu yn y sesiynau ar ôl cyrraedd adref.
- 33 Roedd barn rhieni ynghylch amseru'r sesiynau yn gymysg. Roedd llawer o'r farn fod y sesiynau'n cyd-fynd â rwtinau ysgol eraill y plant a chyfrifoldebau ac ymrwymiadau gwaith eraill y rhieni. Fodd bynnag, dywedodd ambell riant, gan gynnwys rhieni ym Milton, y gallai sesiynau Dechrau'n Deg fod wedi'u halinio'n well ag amseroedd yr ysgol er mwyn lleihau'r amser y gallai rhieni orfod ei dreulio'n aros rhwng diwedd sesiynau dechrau'n deg ac amseroedd codi o'r ysgol. Buom yn trafod hyn â rheolwr rhaglen Dechrau'n Deg a gytunodd i ymchwilio i'r adroddiadau nad oedd amseroedd sesiwn Dechrau'n Deg ac amseroedd sesiwn ysgol gynradd ym Milton yn cyd-fynd â'i gilydd. Dywedodd hefyd y byddai'n gwirio'r sefyllfa mewn canolfannau eraill.

Mae'r rhieni'n fodlon iawn ar y cyfan ag ansawdd y gwasanaethau y maent yn eu defnyddio

- 34 Gofynnwyd i'r rhieni a welsom mewn grwpiau ffocws roi sgôr ar gyfer eu bodlonrwydd â rhaglen Dechrau'n Deg ar raddfa o 1 i 10, gan ystyried mai 10 oedd y sgôr uchaf.

Dangosyn 2: adroddodd y rhieni a welsom lefelau uchel iawn o fodlonrwydd â'r rhaglen



- 35 Gofynnwyd i'r rhieni am resymau dros eu sgoriau, ac roedd eu sylwadau'n canolbwytio'n bennaf ar sylw a gofal y staff tuag at eu plant, y rhieni yn gweld cynnydd eu plant, ac effaith gadarnhaol sesiynau'r rhaglen ar y rhieni a'u gallu i ymgysylltu â'u plant.
- 36 Cafwyd rhai sylwadau hynod o gadarnhaol gan rai rhieni ynghylch eu profiad hwy eu hunain a phrofiad eu plant o raglenni IaCh a Magu Plant Dechrau'n Deg. Nododd y rhieni amrywiaeth o ganlyniadau yr oedd y rhaglenni wedi helpu i'w datblygu yn eu plant, gan gynnwys:
- helpu gyda'r broses o drosglwyddo o'r cartref i ddarpariaeth feithrin;
 - gwella'r lleferydd;
 - ryngweithio'n well ag oedolion a phlant eraill;
 - annog ymddygiad cadarnhaol, fel rhannu;
 - cynyddu annibyniaeth a hyder;
 - cynyddu gwydnwch sy'n arwain at leihau pryder gwahanu; a
 - dysgu sgiliau bywyd newydd, gan gynnwys hyfforddiant hylendid a toiled y gall rhieni ei bwysleisio'n ddiweddarach yn y cartref.
- 37 Dywedodd rhieni wrthym hefyd eu bod wedi elwa'n bersonol ar y sesiynau, gan gynnwys:
- cyfleoedd i gwrdd â phobl newydd a meithrin cyfeillgarwch;
 - meithrin sgiliau rhianta a sgiliau i ryngweithio â phlant;
 - rhoi rhywfaint o seibiant i rieni a'u galluogi i gwblhau tasgau;
 - rhoi cyfle i ddysgu gan rieni eraill a chanddynt broblemau tebyg;

- helpu rhieni i fagu hyder; a
 - meithrin sgiliau Saesneg ymhlieth rhieni nad ydynt yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf, wrth i'w plant feithrin y sgiliau hynny.
- 38 Dywedodd un rhiant wrthym:
- Mae'r gwasanaeth yn anhygoel. Nid wyf wedi cael cyfle fel yna o'r blaen. O gymharu â'r brawd/chwaer arall na chafodd y cyfle yma, mae'r plentyn sydd wedi cael dechrau'n deg wedi gwneud camau breision. Rwy'n ddiolchgar am hyn.'
- 39 Ac eithrio un, dywedodd pawb o'r 391 o rieni a ymatebodd i arolygon y Cyngor ei hun rhwng mis Ionawr a Rhagfyr 2017 eu bod yn fodlon bod eu plentyn wedi cael profiad cadarnhaol, wedi setlo'n dda ac wedi mwynhau ei gyfnod yn y cylch chwarae Dechrau'n Deg, ac roedd pob un o'r 391 o rieni'n fodlon â'r gweithgareddau chwarae a dysgu yr oedd y lleoliadau hyn yn eu darparu. Ychydig iawn o gwynion a geir ynghylch y rhaglen hon.

Mae'r trefniadau ar gyfer cyfathrebu rhwng rhieni a staff lleoliadau Dechrau'n Deg yn dda, ond gallai'r Cyngor wneud mwy i ddefnyddio barn rhieni mewn modd systematig er mwyn gwella'r rhagleni

- 40 Mae pob lleoliad yn gyfrifol am gyfathrebu â'r rhieni o ddydd i ddydd. Mae tîm canolog Dechrau'n Deg y Cyngor yn gyfrifol am gyfathrebu ar draws y rhaglen, ac am hyrwyddo'r rhaglen, gan gynnwys defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol fel Facebook a Twitter. O gymharu â holl raglenni Dechrau'n Deg ledled Cymru y rhaglen hon sydd â'r mwyaf o ddilynwyr yn y cyfryngau cymdeithasol. Yn ôl dadansoddiad y Cyngor ei hun, mae'r rhaglen yn cyrraedd tua 700 o bobl bob dydd drwy ei chyfrif Facebook.
- 41 Mae'r tîm canolog yn defnyddio amrywiaeth eang o ddulliau i gyfathrebu â defnyddwyr gwasanaeth, gan roi cryn bwyslais ar ddefnyddio Facebook a Twitter i rannu gwybodaeth. Mae gan y rhaglen hefyd dudalen wybodaeth ar wefan y Cyngor sydd yn rhoi trosolwg o'r rhaglen ynghyd â manylion cyswllt i rieni.
- 42 Nid oes rhaid i leoliadau unigol ddilyn polisi cyfathrebu safonol, ond dywedodd rhieni wrthym eu bod ar y cyfan yn derbyn yr wybodaeth yr oeddent ei hangen yn brydlon. Oherwydd prysurdeb eu bywydau, dywedodd rhieni wrthym fod y negeseuon testun i'w hatgoffa ar ddiwrnodiau'r sesiynau yn amserol a defnyddiol iawn.
- 43 Mae rhieni'n teimlo'n gyffyrddus wrth gyfathrebu â'r staff yn y lleoliadau gan fod y staff yn hawdd mynd atynt. Wrth godi unrhyw fater, dywedodd rhieni wrthym hefyd fod y mater hwnnw fel arfer yn cael ei ddatrys ar unwaith. Dywedodd rhieni wrthym fod staff yn y lleoliadau'n cadw cyswllt rheolaidd â hwy ac, mewn rhai achosion, fod staff wedi ymweld â'r cartref ar ôl i rieni golli un o sesiynau'r rhaglen magu plant.

- 44 Ceir polisi diffyg presenoldeb strwythuredig ar gyfer diffyg presenoldeb, ac mae'r holl lleoliadau'n dilyn y polisi hwnnw pan fydd plentyn wedi colli tri diwrnod yn olynol heb unrhyw esboniad. Mae'r polisi wedi'i drefnu'n gyfres o gamau a gofnodir gan staff mewn lleoliadau:
- bydd staff yn y lleoliad unigol yn ceisio cysylltu â'r teulu am y tro cyntaf os ceir diffyg presenoldeb;
 - os na fydd staff y lleoliad yn gallu cysylltu â'r teulu, gofynnir i ymwelwyr iechyd alw heibio'r cartref;
 - bydd staff y lleoliad wedyn yn anfon cerdyn post 'Rydym yn eich colli chi' os na fydd teulu yn mynchy'u'r sesiynau ar ôl ymdrechion blaenorol i gysylltu â hwy; ac
 - os na fydd teulu yn cysylltu â'r rhaglen eto, bydd staff yn y lleoliad yn hysbysu'r tîm canolog a fydd wedyn yn ysgrifennu at y teulu, ac o bosib yn cynnig eu lle hwy i blentyn arall.
- 45 Er gwaethaf y dull strwythuredig hwn o ymdrin â diffyg presenoldeb, nid oedd y Cyngor yn gallu rhoi sicrwydd inni fod y polisi diffyg presenoldeb wedi'i alinio â pholisiau diogelu ehangach y Cyngor. Cytunodd y Pennaeth Adfywio Cymunedol i wirio bod dolenni adborth priodol wedi'u sefydlu yn rhan o'r polisi er mwyn sicrhau bod plant wedi'u diogelu. Mae'n gadarnhaol nad yw rhieni nad ydynt yn mynchy'u'r sesiynau yn colli eu hawl i fanteisio ar y rhaglen os ydynt am gysylltu eto yn ddiweddarach.
- 46 Bydd swyddog derbyniadau'r tîm canolog yn cysylltu â rhieni er mwyn canfod pam na fu modd i rieni fynychu. Mae'r tîm canolog yn adolygu gwybodaeth am nifer a chanran yr absenoldebau awdurdodedig ac anawdurdodedig a'r rhesymau pam na fydd rhieni'n bresennol. Er gwaethaf y dull strwythuredig o gofnodi'r rhesymau dros ddiffyg presenoldeb, ni welsom dystiolaeth glir fod y tîm canolog yn defnyddio'r dadansoddiad hwn i sicrhau presenoldeb gwell, gan fod canran fawr o'r 'rhesymau' a gofnodwyd dros ddiffyg presenoldeb yn cynnwys sefyllfaeodd lle'r oedd rhieni'n gwrthod/peidio rhoi rheswm.
- 47 Mae gan y tîm canolog gytundeb lefel gwasanaeth â phob lleoliad, ac yn rhan o'r cytundeb hwn mae'n rhaid i lleoliadau rannu a chasglu arolygon rhieni bob tymor. Bydd tîm canolog y Cyngor yn casglu ac yn adolygu'r arolygon o bob lleoliad. Nid yw'r Cyngor yn rhoi adborth i rieni ar ôl eu hadolygu. Nodwyd bod y Cyngor yn defnyddio cwestiynau gwahanol ar gyfer arolygon rhieni yn ei lleoliadau ei hun, o gymharu â'r cwestiynau a oedd yn cael eu defnyddio mewn lleoliadau a weithredir yn breifat. Mae'r cwestiynau'n canolbwytio'n gyfan gwbl bron ar ganfyddiad rhieni o effaith mynchy'u'r cylchoedd chwarae ar eu plant.
- 48 Mae'r tîm canolog yn casglu arolygon cyn ac ar ôl ymyrraeth gan rieni er mwyn canfod beth fu effaith y rhaglenni magu plant. Mae'r arolygon hyn yn casglu gwybodaeth gan rieni am eu ffordd o rianta cyn ac ar ôl iddynt gymryd rhan yn y rhaglen magu plant. Mae'r tîm canolog hefyd yn defnyddio proffiliau'r Cyfnod Sylfaen i olrhain yr effaith ar ddatblygiad y plant. Mae'r proffil yn defnyddio arsyllwadau ac asesiadau ffurfiannol er mwyn helpu lleoliadau i gynnig profiad dysgu a datblygu datblygiadol briodol i blant, a gellir ei ddefnyddio i gefnogi'r plentyn wrth drosglwyddo i'r ysgol. Mae'r camau hyn yn creu sylfaen gref o dystiolaeth ynglych effaith y rhaglen ar blant. Mae'r gwasanaeth yn

defnyddio dull safonedig i gasglu gwybodaeth sy'n olrhain effaith y rhaglen ar rieni (Offeryn i Fesur Hunaneffeithiolrwydd Rhianta). Mae'r gwasanaeth yn defnyddio'r offeryn hwn i fesur effaith rhaglenni rhianta drwy fesur sgoriau pob rhiant cyn ac ar ôl ymyrraeth.


- 49 Yn rhan o ymagwedd y Cyngor er mwyn deall barn rhieni, dywedodd rheolwr Dechrau'n Deg wrthym fod gan bob lleoliad flwch awgrymiadau, a adolygir ganddo. Bydd rhieni hefyd yn rhoi adborth drwy arolygon ac arolygon ôl-archwiliad. Bydd lleoliadau yn ymateb i'r syniadau a gyflwynir gan rieni drwy'r blychau awgrymiadau. Bydd y tîm canolog yn ymateb i sylwadau rhieni ar raddfa'r rhaglen gyfan. Gwelsom nad oes gan y tîm canolog broses i adolygu barn rhieni o'r blychau awgrymiadau ar draws yr holl lleoliadau, felly gallai'r rhaglen golli cyfle i ddysgu yn sgil awgrymiadau rhieni, a cholli cyfle i weithredu gwelliannau ar draws y rhaglen gyfan.
- 50 Ym mis Gorffennaf 2018, cyflwynodd y Cyngor Broses Rheoli Ymgysylltu â'r Gymuned newydd fydd yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd i aelodau etholedig ar set ddata Llywodraeth Cymru ar gyfer Dechrau'n Deg. Fodd bynnag, nid yw set ddata Llywodraeth Cymru yn cynnwys bodlonrwydd rhieni na chipolwg o effaith y rhaglen ar blant a rhieni, sydd wedi'i gynnwys mewn data a gesglir gan y Cyngor. Nid yw rhaglen ar Cyngor felly'n cynnwys trefniadau ar hyn o bryd i adrodd wrth aelodau etholedig ar effaith lawn y rhaglen ar ganlyniadau plant, yn ogystal â chanlyniadau a lefelau bodlonrwydd rhieni.

Atodiad 1

Taflen a rannwyd ymhllith y rhieni a sgrinlun o'r cyfryngau cymdeithasol

Taflen

Dangosyn 3: taflen a rannwyd ymhllith y rhieni



Sgrinlun o'r cyfryngau cymdeithasol

Dangosyn 4: sgrinluniau o hysbysiad cyfryngau cymdeithasol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer digwyddiadau Dechrau'n Deg yng Nghasnewydd



Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

Published by Orlo [?] · 6 June ·

...

A yw Dechrau'n Deg yn taro'r nod i chi? A yw eich barn yn cael ei ystyried?
Dywedwch wrthym beth ydych chi'n ei feddwl rhwng 12-14 Mehefin yn un o'n sesiynau [Newport Flying Start / Dechrau'n Deg Casnewydd](#) yng Nghasnewydd

[See Translation](#)

The image shows a Facebook post from the Wales Audit Office page. The post features a graphic with three stylized human figures (two blue, one orange) against a blue gradient background. The text on the graphic reads "A YW DECHRAU'N DEG YN TARO'R NOD I CHI?". Below the graphic is the Wales Audit Office logo. The post statistics show 635 people reached and 12 engagements. There is a "Boost Post" button. The caption of the post is "Newport Flying Start / Dechrau'n Deg Casnewydd" and it has 3 shares. Below the post are standard Facebook interaction buttons for Like, Comment, Share, and a dropdown menu. A comment input field says "Write a comment..." and includes icons for smiley face, camera, GIF, and video.

635	12	Boost Post
People reached	Engagements	

Newport Flying Start / Dechrau'n Deg Casnewydd 3 shares

Like Comment Share

Write a comment...

Atodiad 2

Ffeithlun sy'n crynhoi'r prif ganfyddiadau ymhllith rhieni

Arddangosyn 5: ffeithlun sy'n crynhoi'r prif ganfyddiadau ymhllith rhieni

YW DECHRAU'N DEG YN CAEL 10/10 GENNYCH CHI?



Gwnaethom siarad â rhai rhieni yng nghanolfannau Dechrau'n Deg. Dyma'r hyn a welsom...



Mae'r rhan fwyaf o'r rhieni y siaradom â nhw yn fodlon iawn ar Ddechrau'n Deg



Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn dylunio gwasanaethau Dechrau'n Deg i'w gwneud yn hawdd i rieni eu defnyddio



Mae'r rhan fwyaf o rieni'n canfod yr amseroedd a'r lleoliadau yn dda



Mae llawer o rieni sy'n defnyddio Dechrau'n Deg yn gwybod beth sy'n digwydd ac yn gallu siarad â staff yn hawdd



Gallai Cyngor Dinas Casnewydd wneud mwy i ddefnyddio barn rhieni i wneud gwelliannau i Ddechrau'n Deg

Darganfyddwch mwy: <http://www.audit.wales/>

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun.: 029 2032 0660

e-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Welsh Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Phone: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

e-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales



Management Response

Local Authority: Newport City Council

Report title: Service User Perspective

Issue date: November 2018

Document reference: 897A2018-19

Page 1 of 3

Ref	Proposal for Improvement	Intended outcome/benefit	High priority (yes/no)	Accepted (yes/no)	Management response	Completion date	Responsible officer
P1	To increase the number of eligible families accessing and benefitting from the Flying Start programme, the Council should; <ul style="list-style-type: none">ensure that the non-attendance policy is reviewed to ensure its alignment with the Council's wider safeguarding policies; andensure that its analysis of non-attendance is	The non-attendance policy supports the Council's safeguarding policy. Secure the highest level of attendance from families to support improved outcomes.	Yes	Yes	Further investigatory work will be undertaken to align the safeguarding policy with the attendance policy and an updated policy document will be implemented	End of January 2019	Flying Start Project Officer (MS) / Operational Manager (JE)

Ref	Proposal for Improvement	Intended outcome/benefit	High priority (yes/no)	Accepted (yes/no)	Management response	Completion date	Responsible officer
	used to secure improved attendance.						
Page 42	To ensure that the Council can demonstrate that parents and children gain the intended benefit from the Flying Start programme, the Council should; <ul style="list-style-type: none"> • set out clearly the intended outcomes for parents as well as children; and • monitor and report to elected members on the outcomes achieved by parents as well as children 	Demonstrate the positive impact of the programme on both parents and children to members and the public.	Yes	Yes	Flying Start will produce an annual report to share good practice which will be shared with all parties	End of March 2019 and thereafter annually	Community Regeneration Manager (DP) / Flying Start Project Officer (MS)

Ref	Proposal for Improvement	Intended outcome/benefit	High priority (yes/no)	Accepted (yes/no)	Management response	Completion date	Responsible officer
P3	<p>To understand parents' views more effectively, the Council should;</p> <ul style="list-style-type: none"> review its parent surveys to ensure that the same information is collected from all settings. The information collected should be relevant and useful to help ensure that the programme meets parents' needs and aspirations, for example, parental satisfaction, timing and location of sessions. review the survey questions with parents whose first language is not English or Welsh to ensure that all parents are able to provide informed feedback. 	<p>Ensure that the information gathered through the parental surveys can inform the design and delivery of the programme,</p> <p>Ensure that all parents are enabled to provide feedback.</p>	Yes	Yes	We will use service users feedback to influence any changes, enhance delivery and support any future work. Feedback will also be captured and changes to the programme within the annual report.	31 st March 2019	Flying Start Project Officer (MS)

This page is intentionally left blank



Management Response

Local Authority: Newport City Council

Report title: Service User Perspective

Issue date: November 2018

Document reference: 897A2018-19

Ref 51

Ref	Proposal for Improvement	Intended outcome/benefit	High priority (yes/no)	Accepted (yes/no)	Management response	Completion date	Responsible officer
P1	To increase the number of eligible families accessing and benefitting from the Flying Start programme, the Council should; <ul style="list-style-type: none">ensure that the non-attendance policy is reviewed to ensure its alignment with the Council's wider safeguarding policies; andensure that its analysis of non-attendance is	The non-attendance policy supports the Council's safeguarding policy. Secure the highest level of attendance from families to support improved outcomes.	Yes	Yes	Further investigatory work will be undertaken to align the safeguarding policy with the attendance policy and an updated policy document will be implemented	End of January 2019	Flying Start Project Officer (MS) / Operational Manager (JE)

Ref	Proposal for Improvement	Intended outcome/benefit	High priority (yes/no)	Accepted (yes/no)	Management response	Completion date	Responsible officer
	used to secure improved attendance.						
Page 52	To ensure that the Council can demonstrate that parents and children gain the intended benefit from the Flying Start programme, the Council should; <ul style="list-style-type: none"> • set out clearly the intended outcomes for parents as well as children; and • monitor and report to elected members on the outcomes achieved by parents as well as children 	Demonstrate the positive impact of the programme on both parents and children to members and the public.	Yes	Yes	Flying Start will produce an annual report to share good practice which will be shared with all parties	End of March 2019 and thereafter annually	Community Regeneration Manager (DP) / Flying Start Project Officer (MS)

Ref	Proposal for Improvement	Intended outcome/benefit	High priority (yes/no)	Accepted (yes/no)	Management response	Completion date	Responsible officer
P3	<p>To understand parents' views more effectively, the Council should;</p> <ul style="list-style-type: none"> review its parent surveys to ensure that the same information is collected from all settings. The information collected should be relevant and useful to help ensure that the programme meets parents' needs and aspirations, for example, parental satisfaction, timing and location of sessions. review the survey questions with parents whose first language is not English or Welsh to ensure that all parents are able to provide informed feedback. 	<p>Ensure that the information gathered through the parental surveys can inform the design and delivery of the programme,</p> <p>Ensure that all parents are enabled to provide feedback.</p>	Yes	Yes	We will use service users feedback to influence any changes, enhance delivery and support any future work. Feedback will also be captured and changes to the programme within the annual report.	31 st March 2019	Flying Start Project Officer (MS)

This page is intentionally left blank